**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (25)**

**Dydd Mawrth, 29 Hydref 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Ethol aelodau i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** - ***Ni chyflwynwyd cynnig***

**Eitem 2**
**Ethol aelodau i'r Pwyllgor Safonau Ymddigiad**
*NDM1188* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Pauline Jarman (Plaid Cymru) i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Brian Hancock (Plaid Cymru).

**Eitem 3**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 4**
**Datganiad: Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Eitem 5**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft.

**Eitem 6**
**Cynnig i nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru**
*NDM1187* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar gyfer 2001-02, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2002, ac y dosbarthwyd copïau personol ohono i holl Aelodau'r Cynulliad.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi'n ofalus y sylwadau a wnaeth Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn yr adroddiad.

Cliciwch yma i weld Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar gyfer 2001-02. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.

**Eitem 7**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal - *gohiriwyd o ddydd Mercher, 23 Hydref 2002*.**
***NDM1184 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2002.

Cliciwch yma i weld yr Adroddiad Blynyddol.

**Eitem 8**
**Dadl Plaid Cymru**
*NDM1186* - 1. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar lywodraeth y DU:

a) i dynnu'n ôl ei chefnogaeth i unrhyw bosibilrwydd neu fygythiad o ragymosod yn filwrol ar Irac ac i dderbyn y gallai ymosodiad o'r fath fod yn groes i siarter y Cenhedloedd Unedig;
b) i weithio gydag aelodau eraill y Cenhedloedd Unedig i geisio penderfyniad ar ddychwelyd yr arolygwyr arfau i Irac; ac
c) i ddefnyddio'i dylanwad i geisio datrys y gwrthdaro rhwng Israel a'r Palestiniaid.

2. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu hefyd y byddai gweithredu milwrol unochrog yn erbyn Irac yn effeithio'n ddifrifol ar ddiogelwch y Dwyrain Canol ac yn taro economi Cymru a'r Deyrnas Unedig yn sylweddol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)**
**(2)**

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl 'Mae'r Cynulliad Cenedlaethol' a rhoi, yn lle hynny: ',er yn dymuno annog Llywodraeth Ei Mawrhydi i geisio trechu terfysgaeth ryngwladol trwy gynghreiriau a'r Cenhedloedd Unedig, yn cydnabod:
a) nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldeb dros Faterion Tramor; a
b) y byddai'n fwy buddiol defnyddio amser ac egn i'r Cynulliad Cenedlaethol i geisio gwella gwasanaethau cyhoeddus er budd pobl Cymru.'

**Gwelliant 2 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu popeth ar ôl "lywodraeth y DU" yn y llinell gyntaf a rhoi, yn lle hynny:
a) i barhau â’i gwaith gydag aelodau eraill y Cenhedloedd Unedig i geisio cael penderfyniad ar anfon yr arolygwyr arfau yn ôl i Irac ac i sicrhau bod unrhyw ymgyrch filwrol yn erbyn Irac yn cydymffurfio â thelerau Siarter y Cenhedloedd Unedig; a
b) i barhau â’i ymdrechion i ddatrys yr anghydfod rhwng Israel a’r Palestiniaid.

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 30 Hydref 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**